# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

# Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
# Neuadd y Dref
# Wrecsam
# LL11 1AY

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Lleolir Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yng ngogledd-ddwyrain Cymru ac mae ganddo boblogaeth amcangyfrifedig o 136,126. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 68 o ysgolion. Mae 57 ysgol gynradd, gan gynnwys saith sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg, ac 1 ysgol gynradd ffederal dwy ffrwd. Mae naw ysgol uwchradd, gan gynnwys un ysgol cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, mae un ysgol arbennig, un ysgol feithrin a gynhelir ac un uned cyfeirio disgyblion.

Ymgymerodd y prif weithredwr â'i swydd yn 2018 a phenodwyd y Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar yn 2017. Mae arweinydd y cyngor wedi bod yn ei rôl er 2014 ac ymgymerodd y prif ddeiliaid portffolio ar gyfer gwasanaethau addysg â'u swyddi yn 2017. Arolygwyd yr awdurdod lleol ddiwethaf yn Nhachwedd 2010.

Mae Wrecsam yn un o chwe awdurdod lleol yng Nghonsortiwm GwE ar gyfer gwella ysgolion.

Yn 2019-2020, cyllideb addysg net y Cyngor yw rhyw £98.4 miliwn. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yw £4,870 y disgybl, sef y 10fed uchaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru.

Mae arolygwyr yn ystyried amrywiaeth eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Ystyriant y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth leol. Nodir ychydig o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yn Wrecsam isod:

- Dros gyfartaledd tair blynedd, mae 17.2% o'r disgyblion 5 i 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 17.8%
- Mae 9.2% o ddisgyblion 5 oed a hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 16.2%
- Mae 11.8% o ddisgyblion 5 oed a hŷn yn dod o leiafrifoedd ethnig, sydd ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 11.4%
- Mae gan 19.3% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 22.2%
- Roedd 96 o blant fesul 10,000 yn cael gofal gan yr awdurdod lleol yn 2019, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 109 o blant fesul 10,000

## Crynodeb

Ar y cyfan, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn ysgolion cynradd ond, mewn mwyafrif o ysgolion uwchradd, mae deilliannau addysg disgyblion ymhell islaw deilliannau eu cymheiriaid yn genedlaethol. Dros gyfnod, nid yw barnau arolygu ysgolion uwchradd yn Wrecsam yn cymharu'n dda â barnau arolygu ysgolion uwchradd ledled Cymru.

Yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr yn Wrecsam wedi mynegi gweledigaeth glir i wasanaethau addysg sy'n amlinellu eu huchelgais i bob dysgwr. Mae ymrwymiad clir yn wleidyddol a chan swyddogion i wella deilliannau, ac mae uwch arweinwyr wedi cyfathrebu'n onest gyda rhanddeiliaid am raddfa'r her sy'n wynebu'r awdurdod lleol, yn enwedig o ran perfformiad gwael mewn ysgolion uwchradd.

Mae ymagweddau'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at yr heriau yn briodol, ar y cyfan. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau'r ffordd y mae'n herio perfformiad ysgolion ac yn eu cynorthwyo i wella. Cyflwynwyd mentrau buddiol, fel byrddau gwella carlam. Mae'r awdurdod lleol yn cynnig ystod eang ac amrywiol o wasanaethau defnyddiol sy'n cefnogi addysg disgyblion a phobl ifanc o oedran addysg cyn-ysgol ac addysg orfodol, i'r cyfnod ôl-16 a thu hwnt. Mae ei ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig yn bodloni anghenion disgyblion yn dda, fel y mae gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae'r gwasanaethau a'r dulliau hyn yn canolbwyntio'n briodol ar feithrin gallu mewn ysgolion, ynghyd â chynorthwyo disgyblion a phobl ifanc.

Er cryfderau mewn gwasanaethau addysg, effaith gyfyngedig y mae camau i ysgogi gwelliannau wedi'i chael ar y deilliannau i ddisgyblion uwchradd. Mae prosesau hunanwerthuso a gwella ar draws meysydd gwasanaeth pwysig, gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi lles, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion, wedi'u tanddatblygu. Mae hyn yn golygu nad oes gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth gywir o effeithiolrwydd ei ddulliau. Nid yw'r gwasanaethau hyn yn cydweithio'n effeithiol ar hyn o bryd i sicrhau bod eu gwaith yn gydlynus a threfnus, ac nid yw uwch swyddogion wedi nodi hyn yn ddigon da.

Mae goblygiadau deilliannau gwan yn ysgolion uwchradd Wrecsam yn arwyddocaol i les pobl ifanc a'u haddysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y dyfodol. Mae gwaddol ymyrraeth a chymorth aneffeithiol dros nifer o flynyddoedd wedi arwain at welliant cyfyngedig yn unig mewn llawer o ysgolion uwchradd. Mae graddfa'r her i wella deilliannau mewn ysgolion uwchradd yn golygu bod Wrecsam yn awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol.

## Argymhellion

A1 Gwella deilliannau i ddysgwyr ar frys, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella presenoldeb, lles ac ymddygiad disgyblion ysgol uwchradd

A3 Cryfhau'r cydweithio ar draws meysydd gwasanaeth yn gysylltiedig â phob agwedd ar les

A4 Gwella ansawdd hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella ar draws pob gwasanaeth addysg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr awdurdod lleol yn diweddaru ei gynlluniau gwella i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd y darparwr trwy gynhadledd welliant ôl-arolygiad a chynadleddau cynnydd. Cynhelir ymweliad monitro tua 30 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

# Prif ganfyddiadau

## Deilliannau

Mae deilliannau arolygu mewn lleoliadau ac yn ysgolion cynradd Wrecsam yn dangos bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf, ar y cyfan. Fodd bynnag, erbyn iddynt adael yr ysgol uwchradd, nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd â'r disgwyl. Dros gyfnod, nid yw barnau arolygu ysgolion uwchradd yn Wrecsam yn cymharu'n dda â barnau arolygu ysgolion uwchradd ledled Cymru. Mewn mwyafrif o ysgolion uwchradd, mae disgyblion yn cyflawni islaw'r cyfartaledd ar gyfer eu cymheiriaid mewn ysgolion tebyg. Mae'n bryder penodol, ar draws mwyafrif ysgolion uwchradd Wrecsam, fod safonau mewn Saesneg a mathemateg wedi bod yn wael yn y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, mae dewisiadau a chyfleoedd disgyblion yn y cyfnod ôl-16 yn fwy cyfyngedig. Yn yr ysgolion uwchradd lle y mae disgyblion wedi tangyflawni dros y tair blynedd diwethaf, dim ond ychydig bach iawn ohonynt sy'n dangos tuedd sy'n gwella.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn mewn Cymraeg mamiaith yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.

Mae dysgwyr agored i niwed, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn cyflawni ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer eu cymheiriaid ledled Cymru. Yn ogystal, nid yw'r disgyblion mwyaf abl mewn mwyafrif o ysgolion uwchradd yn gwneud digon o gynnydd.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfran ymadawyr Blwyddyn 11 y mae'n hysbys nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth wedi aros yn isel ac mae'n cyd-fynd ar y cyfan â chyfartaledd Cymru. Mae gwaith y gwasanaethau cymorth ieuenctid yn cyfrannu'n dda at gynorthwyo pontio'r disgyblion i'r cyfnod ôl-16. Mae bron pob un o'r disgyblion yn Wrecsam yn symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ôl-16, gyda'r mwyafrif yn ymrestru â'r coleg addysg bellach lleol. Ar hyn o bryd, mae chweched dosbarth mewn dwy ysgol uwchradd, sef un ysgol cyfrwng Saesneg ac un ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae un chweched dosbarth arall mewn ysgol wedi cau'n ddiweddar. Mae disgyblion ôl-16 sy'n aros yn yr ysgol yn gwneud cynnydd addas.

Mae deilliannau mewn adroddiadau arolygu Estyn ar leoliadau nas cynhelir ac ysgolion cynradd yn dangos bod lles y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y darparwyr hyn yn dda. Fodd bynnag, nid yw lles disgyblion mewn ysgolion uwchradd, na'u hagweddau at ddysgu, yn cymharu'n dda â disgyblion mewn ysgolion eraill yng Nghymru.

Mae pobl ifanc yn manteisio ar amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol i helpu gyda'u hiechyd meddwl a'u hiechyd emosiynol. Er enghraifft, mae pobl ifanc yn cael cymorth defnyddiol ar gyfer amrywiaeth o faterion, gan gynnwys tai ac iechyd rhyw, trwy'r 'Siop Wybodaeth' yng nghanol y dref. Mae cyfran y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth ieuenctid yn uwch na'r gyfran mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae nifer cynyddol o bobl ifanc yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn dda i ddatblygu'u hunan-barch a'u medrau cymdeithasol, ac i ennill deilliannau wedi'u hachredu. Mae'r cyfraddau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, fel chwaraeon, yn dda.

Mae’r awdurdod lleol yn ymgysylltu â phobl ifanc trwy waith grŵp y cyngor ieuenctid, sef ‘Senedd yr ifanc’. Trwy’r grŵp hwn, mae pobl ifanc yn ymgysylltu’n fwy ag ymgynghoriadau’r awdurdod lleol, sydd wedi helpu i lywio’r cynllunio ar gyfer gwella agweddau fel lles. Mae’r bobl ifanc hyn yn darparu hyfforddiant i aelodau etholedig ac yn herio swyddogion yr awdurdod lleol yn dda ynghylch agweddau fel gwaharddiadau a chynnig y cwricwlwm mewn ysgolion.

Ar y cyfan, mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd yn foddhaol. Fodd bynnag, mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd wedi parhau islaw’r disgwyliadau ym mwyafrif yr ysgolion am y pedair blynedd diwethaf. Mae presenoldeb pob grŵp o ddysgwyr islaw disgwyliadau. Mae ychydig bach o ysgolion cynradd a thraean o ysgolion uwchradd wedi gweld cynnydd mewn absenoldeb cyson dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol a’r gwaharddiadau cyfnod penodol yn rhy uchel o hyd. Mae’r duedd o ran gwaharddiadau cyfnod penodol wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf. Er 2017, cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o fwy na phum niwrnod yw’r uchaf yng Nghymru.

**Gwasanaethau Addysg**

O dan Faes Arolygu 2, mae Estyn yn gosod cwestiynau arolygu lleol sy’n berthnasol i’r awdurdod lleol unigol. Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy’n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol presennol yr awdurdod lleol neu mae’r cwestiynau’n deillio o wybodaeth sydd gan Estyn am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.

**Pa mor dda mae’r awdurdod lleol yn cynorthwyo ysgolion i wella, yn enwedig ysgolion uwchradd?**

Ers penodi prif swyddog addysg newydd yn 2017, mae’r berthynas rhwng yr awdurdod lleol, ei ysgolion a’r consortiwm rhanbarthol wedi gwella. O ganlyniad, mae mwy o her, deialog broffesiynol ac atebolrwydd gwell. Bellach, mae’r awdurdod lleol yn adnabod ei ysgolion yn well ac mae’n datblygu’r gallu i amlygu cryfderau a meysydd i’w gwella y tu hwnt i agweddau mwy arwynebol ar waith ysgol.

Yn gyffredinol, mae cynlluniau ar gyfer gwella ysgolion yn cofnodi blaenoriaethau allweddol i’w datblygu yn dda. Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae cynlluniau ar gyfer ysgolion uwchradd wedi bod yn fwy pendant ac yn fwy cynhwysfawr. Mae swyddogion yn cydweithio â’r consortiwm i fonitro’r cynlluniau hyn yn rheolaidd a chaiff camau adferol eu hamlygu pan fydd pryderon am gynnydd. Fodd bynnag, nid yw gwerthuso effaith strategaethau gwella ysgolion mewn lleiafrif o feysydd pwysig wedi’i ddatblygu’n ddigon da. Mae gwerthusiadau’n tueddu i ddisgrifio camau gweithredu sydd wedi’u cwblhau yn hytrach na’r effaith ar flaenoriaethau cytunedig.

Mae’r awdurdod lleol, mewn cydweithrediad â’r consortiwm, yn llunio cynlluniau cymorth pwrpasol ar gyfer pob ysgol uwchradd, ac i ysgolion cynradd lle y mae dull mwy cynnil o gymorth yn briodol. Mae’r awdurdod lleol wedi sefydlu strwythurau addas i fonitro’r cynlluniau hyn yn rheolaidd ac i herio’r ysgolion a’r consortiwm o ran y cynnydd a wnaed a phriodoldeb y cymorth. Lle y mae angen lefel uwch o gymorth ar ysgol, gelwir bwrdd gwella carlam. Mae’r byrddau gwella carlam, y mae eu

haelodau'n cynnwys y prif swyddog addysg a'r aelod arweiniol addysg, yn dwyn yr holl randdeiliaid i gyfrif yn dda ac yn cefnogi'n fuddiol yr ymdrech i wella yn yr ysgol. Mae hyn yn gryfder yng ngwaith yr awdurdod lleol.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol a swyddogion gwella ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth i gynllunio amrywiaeth o becynnau i gynorthwyo ysgolion â llawer o'r meysydd y mae angen eu gwella. Mae'r cymorth hwn yn gosod mentrau gwella rhanbarthol ochr yn ochr â dulliau penodol wedi'u haddasu yn ôl blaenoriaethau gwella'r ysgol yn fedrus. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn integreiddio'i gynlluniau i wella presenoldeb, ymddygiad ac agweddau eraill ar les yn ddigon da i'r cymorth pwrpasol er mwyn gwneud y mwyaf o effaith strategaethau gwella.

Mae gan ymgynghorwyr cefnogi gwelliant, sy'n gweithio gydag ysgolion ar hyn o bryd, y profiad a'r medrau i gefnogi arweinwyr ac athrawon. Cânt eu defnyddio'n briodol a chaiff eu medrau eu paru ag anghenion ysgolion unigol. Mae adroddiadau ymgynghorwyr cefnogi gwelliant yn amlinellu materion allweddol yn briodol ac yn darparu camau nesaf clir ar gyfer gwella. Mae ymyriadau rheolaidd, helaeth a gwerthfawr ar gael i ysgolion y mae angen cymorth arnynt. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i weld effaith lawn y gwaith hwn.

**Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion i wella presenoldeb?**

Ym mwyafrif ysgolion uwchradd Wrecsam, mae lefelau presenoldeb islaw'r lefelau mewn ysgolion tebyg ar draws Cymru ac, mewn ychydig ysgolion, mae lefelau presenoldeb ymhell islaw'r lefelau mewn ysgolion tebyg. Mae'r awdurdod lleol yn deall y prif heriau sy'n wynebu'r ysgolion hyn ac mae wedi adolygu'r ffordd y mae'n mynd ati i gefnogi ysgolion a theuluoedd unigol. Ar y cyfan, mae cysylltiadau gwell rhwng y gwasanaethau cymorth addysg a gwasanaethau ac asiantaethau eraill. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth gyffredinol i lywio'r gwaith hwn wedi'i datblygu'n ddigonol ac, o ganlyniad, mae diffyg cysondeb rhwng cynlluniau i wella presenoldeb a gwaith gwasanaethau eraill sy'n eu cefnogi.

Lle y mae swyddogion yn gweithio'n dda ar draws asiantaethau i gefnogi presenoldeb, mae eu gwaith yn cyfrannu at wella presenoldeb disgyblion. Enghraifft o hyn yw ailstrwythuro'r cymorth i ysgolion yn ddiweddar, sydd wedi dwyn buddion cynnar. Mae'r dull mwy targedig o gynorthwyo ysgolion yn synhwyrol ac mae enghreifftiau o gydweithredu da ag asiantaethau sy'n ymwneud â chynorthwyo â phresenoldeb, yn bennaf trwy rannu gwybodaeth.

Hefyd, mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd wrth adolygu'r ffordd y mae'n cynorthwyo unigolion sy'n absennol o'r ysgol yn gyson, a sut i hyrwyddo presenoldeb da yn gyffredinol yn yr ysgolion lle y mae lefel isel o bresenoldeb yn broblem. Mae hyn wedi arwain at ddulliau pwrpasol o godi lefelau presenoldeb. Mewn un ysgol, nododd yr awdurdod lleol fod gwaharddiadau undydd yn cyfrannu'n sylweddol at lefelau presenoldeb gwael a bu'n gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu arferion adferol i gefnogi'r disgyblion hyn.

Mae gweithwyr cymdeithasol addysg yn gweithio'n dda gydag ysgolion i gymhwyso hysbysiadau cosb benodol yn drylwyr, gan ddilyn gweithdrefn glir a thryloyw. Yn ogystal, maent wedi llwyddo i gymryd camau yn y llys lle nad yw teuluoedd yn

ymateb i gosb neu rybudd ynghylch presenoldeb eu plentyn. Mewn ychydig o'r achosion hyn, mae presenoldeb disgyblion unigol wedi gwella, ond bach iawn o effaith y mae'r gwaith hwn wedi'i chael ar wella presenoldeb yn gyffredinol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.

Er bod y datblygiadau hyn yn cael rhywfaint o effaith, mae diffyg ffocws o hyd ar fynd i'r afael ag absenoldebau cyson yn gyffredinol. Yn ogystal, nid yw swyddogion sy'n ymwneud â chefnogi ysgolion yn glir ynghylch pa ddulliau o gynorthwyo ysgolion sy'n gweithio'n dda ai peidio. Mae hyn yn cyfyngu ar eu dealltwriaeth o ba strategaethau i'w mabwysiadu mewn amgylchiadau gwahanol. Mae goruchwyliaeth uwch swyddogion o'r gwaith hwn a'u dealltwriaeth o ba mor dda y mae swyddogion yn defnyddio ac yn gweithredu'r dulliau yn ymarferol wedi'u tanddatblygu. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu dwyn swyddogion haen ganol i gyfrif am eu gwaith yn ddigon da.

**Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn cynorthwyo dysgwyr ac ysgolion er mwyn gostwng gwaharddiadau?**

Yn ddiweddar iawn, mae'r awdurdod lleol wedi rhannu cyngor diweddaredig i ysgolion ar sut y dylent gynorthwyo dysgwyr a gostwng gwaharddiadau. Mae wedi darparu cyfres o ddogfennau arweiniad a chadarnhau ei brosesau atgyfeirio. Mae'r rhain yn atgoffa ysgolion am yr angen i ddarparu dull graddedig, ysgol gyfan a chynhwysol wrth fodloni anghenion disgyblion a gostwng gwaharddiadau. Er gwaethaf y datblygiadau hyn, mae dealltwriaeth gyffredinol swyddogion allweddol yr awdurdod lleol o bolisi'r awdurdod ar ymddygiad yn gyfyngedig. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r awdurdod lleol i weithredu a monitro effeithiolrwydd y polisi a'i ddulliau.

Mae ysgolion cynradd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth cymorth ymddygiad y mae'r awdurdod lleol yn ei ddarparu iddynt. Fodd bynnag, nid yw'r gefnogaeth ar gyfer lleihau gwaharddiadau wedi ei ddatblygu'n ddigonol yn y sector uwchradd. Ysgolion uwchradd sy'n gyfrifol am yr holl waharddiadau parhaol a phedwar o bob pum gwaharddiad cyfnod penodol. Yn ogystal, mae dros hanner yr holl waharddiadau cyfnod penodol ymhlith disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu hyfforddiant arbenigol ar reoli ymddygiad i ysgolion uwchradd, ond ychydig iawn o effaith y mae hwn wedi'i chael ar ostwng gwaharddiadau cyfnod penodol hwy. Mae'r awdurdod lleol wedi cynnig rhywfaint o her i ysgolion ar sut maent yn codio ymddygiadau sy'n arwain at waharddiadau. Fodd bynnag, nid oes gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth ddigon manwl o'r rhesymau dros waharddiadau i helpu i lywio strategaeth yn y dyfodol.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n mynychu darpariaeth addysg heblaw mewn lleoliadau ysgol dros y tair blynedd diwethaf. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth atgyfeirio disgyblion wedi'i ad-drefnu i ateb galw cynyddol. Ar hyn o bryd, nodwyd bod gan yr holl ddisgyblion sy'n mynychu addysg heblaw yn yr ysgol angen addysgol arbennig ac mae gan un o bob pump ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Mae protocolau clir ar y defnydd o symudiadau rheoledig a chynlluniau cymorth bugeiliol. Fodd bynnag, mae goruchwyliaeth yr awdurdod lleol o'r ffordd y mae ysgolion yn defnyddio symudiadau rheoledig yn gyfyngedig ac, felly, ni all gynorthwyo disgyblion ac ysgolion yn y broses hon yn ddigon da. Mae'r awdurdod lleol yn dechrau olrhain y defnydd o gynlluniau cymorth bugeiliol. Fodd bynnag, nid oes gan yr awdurdod lleol oruchwyliaeth ddigon cryf o'r defnydd o amserlenni gostyngol ar draws ysgolion.

Nid yw'r trefniadau ar gyfer sicrhau addysg briodol i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol bob amser yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Caiff gormod o ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol eu gosod yn y gwasanaeth atgyfeirio disgyblion am gyfnodau estynedig ac nid ydynt yn cael cyfle i fynychu ysgol brif ffrwd wahanol. Yn ogystal, y llynedd, roedd ychydig dros draean o ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol allan o bob math o addysg am gyfnod hwy na'r cyfnod y mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei argymell. Mae hyn yn gwneud y disgyblion hynny nad ydynt yn yr ysgol ac nad ydynt yn cael addysg arall yn fwy agored i niwed. Yn gyffredinol, nid yw goruchwyliaeth y disgyblion nad ydynt yn yr ysgol yn ddigon cadarn.

**Pa mor effeithiol yw gwasanaethau addysg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol?**

Mae'r awdurdod lleol yn cynnig ystod eang ac amrywiol o wasanaethau sy'n cynorthwyo disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) a'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol yn dda. Mae'r gwasanaethau hyn yn canolbwyntio'n briodol ar feithrin gallu mewn ysgolion a chefnogi disgyblion. Mae gan yr awdurdod lleol weithdrefnau a ddeellir yn dda ar gyfer asesu statudol a meini prawf ar gyfer cael darpariaeth arbenigol.

Mae staff yr awdurdod lleol a staff ysgolion yn elwa o'r cysylltiadau priodol sydd gan yr awdurdod lleol ag asiantaethau partner. Mae hyn yn helpu staff i ddatblygu'u dealltwriaeth eu hunain o anghenion disgyblion a sut y gallant gryfhau eu cymorth ar gyfer y disgyblion hyn.

Mae gweithio ar y cyd yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n gydlynol ar lefel weithredol a bod plant a phobl ifanc yn cael cyfraniadau cydlynedig sy'n berthnasol iddynt. Er enghraifft, mae gweithio ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol yn golygu bod plant ag anawsterau iaith a lleferydd a phlant â nam ar y golwg neu'r clyw yn gallu manteisio ar gyngor, cymorth ac arweiniad arbenigol.

Mae ychydig llai nag un o bob pum ysgol gynradd a phob ysgol uwchradd yn Wrecsam yn gartref i ddarpariaeth canolfan adnoddau'r awdurdod lleol i ddisgyblion ag angen addysgol arbennig, gan gynnwys disgyblion ag awtistiaeth ac anawsterau iaith a lleferydd. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio gwybodaeth am y newid i broffil AAA yn effeithiol i ddiwygio nifer y lleoedd sydd ar gael ac i ailddosbarthu'r ddarpariaeth i fodloni'r angen. Er enghraifft, mae wedi creu darpariaeth ychwanegol i ddisgyblion ag awtistiaeth a'r disgyblion hynny y mae angen anogaeth arnynt. Lle y nodir yr angen am y ddarpariaeth arbenigol hon, mae'r awdurdod lleol yn trefnu darpariaeth amserol.

Yn ddiweddar, comisiynydd yr awdurdod lleol adolygiad o brosesau AAA yn ei ysgolion. Mae ychydig dros hanner yr ysgolion yn adolygu'u polisi ar AAA yn rheolaidd. Mae hyn wedi helpu i amlygu cryfderau a meysydd i'w datblygu ac mae'r awdurdod lleol yn dechrau gweithredu ar y canfyddiadau hyn.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn cyfarfod ag arweinwyr mewn ysgolion yn flynyddol i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud a'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig disgyblion. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn darparu cyngor ac arweiniad gwerthfawr i ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r ymweliadau hyn yn

canolbwyntio cystal ag y gallent ar ystyriaethau lles ehangach, fel presenoldeb ac ymddygiad, nac yn ystyried cyfran uchel y gwaharddiadau cyfnod penodol i ddisgyblion ag AAA.

Wrth gynorthwyo plant i rieni sy’n ceisio lloches, mae’r awdurdod lleol yn cydweithio’n agos â chydweithwyr yn y sectorau iechyd a thai a’r trydydd sector. Mae’r ymagwedd hon yn helpu i sicrhau bod disgyblion yn cael eu gosod mewn addysg briodol yn brydlon.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn gweithio gyda’r consortiwm rhanbarthol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ysgolion ynghylch anawsterau ymlyniad posibl sydd gan ddisgyblion. O ganlyniad, mae ysgolion yn fwy gwybodus am effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Mae’r gwasanaeth sy’n cefnogi disgyblion o’r gymuned sipsiwn a theithwyr yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion wedi’u hintegreiddio i ysgolion yn dda. Yn ddiweddar, mae’r awdurdod lleol wedi sicrhau cyllid ychwanegol i sefydlu canolbwynt o fewn y gymuned teithwyr. Bydd y canolbwynt yn cynnig cymorth ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac yn helpu plant gyda’u gwaith cartref.

Mae’r awdurdod lleol, ei swyddogion ac ysgolion yn gweithio’n dda gyda chydweithwyr ar draws y rhanbarth i baratoi ar gyfer diwygio anghenion dysgu ychwanegol yn statudol. Mae staff ysgol sy’n gweithio mewn clystyrau wedi nodi blaenoriaethau ar y cyd. Mae’r rhain yn amrywio o wella ymwybyddiaeth rhieni o’r diwygiadau, i gynorthwyo staff i ddeall sut y gallant addasu adnoddau a dulliau i fodloni anghenion plant.

Fel rhan o’i baratoadau ynghylch diwygio ADY, mae’r awdurdod lleol wedi ymgysylltu â’i garchar lleol. Mae wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol iawn i arweinwyr a charcharorion ifanc am y diwygio, a beth allai hyn ei olygu i garcharorion ag anghenion dysgu ychwanegol pan gânt eu rhyddhau o’r carchar.

Mae’r awdurdod lleol yn sicrhau bod rhieni’n gallu manteisio ar amrywiaeth o wybodaeth a gwasanaethau defnyddiol. Caiff swyddogion yr awdurdod lleol eu neilltuo i deuluoedd dysgwyr ag AAA. Nhw yw’r prif gyswllt i’r teulu ac maent yn eu cynorthwyo’n dda iawn. O ganlyniad, mae swyddogion yn datblygu perthnasoedd hynod effeithiol gyda rhieni. Mae gwefan yr awdurdod lleol yn rhoi trosolwg o wasanaethau y gall rhieni fanteisio arnynt, gan gynnwys eu hawliau o ran apelio a datrys anghydfodau. Caiff blant wybodaeth hefyd am eu hawl i apelio. Oherwydd cryfder y cysylltiadau rhwng yr awdurdod lleol, asiantaethau eraill a rhieni, mae nifer yr apeliadau a gofrestrir gyda Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn isel iawn yn hanesyddol.

**Pa mor dda mae’r awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion a phartneriaid allanol i sicrhau bod cyfleoedd addysg a hyfforddiant priodol i bob dysgwr ôl-16?**

Mae’r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad cadarn i baratoi ei ddisgyblion ar gyfer y cyfleoedd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ôl-16 mwyaf perthnasol. Trwy amrywiaeth o bartneriaethau sefydledig, gan gynnwys gyda’r Adran Gwaith a Phensiynau a Gyrfa Cymru, mae’n sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn gallu manteisio ar

gyngor ac arweiniad defnyddiol wrth ystyried eu hopsiynau. Mae cynllunio ar y cyd â'r coleg addysg bellach lleol a'r ysgol arbennig a gynhelir yn galluogi bron i draean o ddysgwyr cyfnod allweddol 4 i fanteisio ar brofiadau cyfoethogi ac ymgysylltu gwerthfawr. Mae'r dewis cynhwysfawr hwn o raglenni galwedigaethol yn galluogi disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag AAA neu'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol, i baratoi'n bwrpasol ar gyfer y pontio i raglenni ôl-16, yn ogystal â chodi dyheadau a llwyddo i atal pobl ifanc rhag peidio â bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET). Caiff y cyfleoedd hyn eu cynllunio'n ofalus i fodloni anghenion cyflogaeth a datblygu economaidd yn Wrecsam yn y dyfodol.

Gall disgyblion yn Wrecsam symud ymlaen i raglenni ôl-16 lefel 2 a lefel 3 yn y coleg addysg bellach lleol neu mewn chweched dosbarth mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol cyfrwng Saesneg. Mae swyddogion ac aelodau etholedig yn yr awdurdod lleol yn ceisio sicrwydd rheolaidd gan y darparwyr hyn am ystod ac addasrwydd y cynnig, yn ogystal ag ystyried y deilliannau i'r holl ddysgwyr ôl-16 yn Wrecsam.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Dros nifer o flynyddoedd, nid yw'r awdurdod lleol wedi sicrhau'r gwelliant angenrheidiol o fewn ei wasanaethau addysg. Yn gyffredinol, mae gweithredu i ysgogi newid wedi bod yn rhy araf.

Mae'r newidiadau diweddar ymhlith yr uwch arweinwyr yn yr awdurdod lleol wedi dangos cydnabyddiaeth bod angen i'r awdurdod lleol wella agweddau pwysig ar ei waith. Mae gan arweinydd y cyngor a'r prif weithredwr weledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer y ddarpariaeth addysg a'r deilliannau i blant a phobl ifanc. Mae arweinydd y cyngor, yr aelod arweiniol addysg a'r aelod arweiniol pobl, gwasanaethau ieuenctid a gwrthdlodi, ynghyd ag uwch arweinwyr, yn gyfarwydd iawn â'r heriau sy'n wynebu'r awdurdod. Mae eu dealltwriaeth o'r materion allweddol sy'n wynebu'r gwasanaeth addysg ac ysgolion unigol yn gwella, ac maent yn gwybod nad yw cyflymder y gwelliant wedi bodloni'u dyheadau, yn enwedig o ran perfformiad ysgolion uwchradd.

Mae perthynas yr awdurdod lleol ag ysgolion yn fwy cydweithredol erbyn hyn ac mae wedi gwella'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r prif swyddog addysg wedi datblygu perthynas waith fwy cadarnhaol, tryloyw a heriol ar draws timau gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol, ei ysgolion a'r aelodau etholedig. Mae'r prif swyddog addysg a'r aelod arweiniol addysg wedi ymgysylltu'n dda â phenaethiaid ac wedi cyflawni rhaglen estynedig o ymweliadau ag ysgolion, sydd wedi helpu i amlygu materion allweddol i'r awdurdod lleol. Cryfder yn yr arweinyddiaeth yw datblygiad pellach ddull yr awdurdod lleol o gefnogi a herio ysgolion sy'n achosi pryder, trwy'r byrddau gwella carlam diwygiedig.

Dros gyfnod, mae'r awdurdod lleol wedi sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau a deilliannau mewn rhai meysydd, ond prin fu ei effaith mewn meysydd eraill. Mae arweinwyr gwasanaethau addysg wedi cryfhau eu gallu i gynorthwyo a herio ysgolion i wella. Mae'r cymorth gaiff pobl ifanc drwy'r gwasanaeth ieuenctid yn agwedd gref ar waith yr awdurdod. Fodd bynnag, nid yw wedi cael digon o effaith ar ddatblygu strategaethau allweddol i wella deilliannau, lles, presenoldeb ac ymddygiad mewn ysgolion uwchradd na gostwng gwaharddiadau. Mae arweinwyr yn gweithio'n dda gyda phartneriaid a sefydliadau eraill i gyflawni gwelliannau i wasanaethau, fel y

ddarpariaeth i ddisgyblion ag AAA. Fodd bynnag, nid yw'r gwerthusiad parhaus o effaith gwasanaethau rheng flaen a mentrau gwella pwysig, fel byrddau gwella carlam a chamau i fynd i'r afael â phresenoldeb a gwaharddiadau, wedi'u datblygu'n ddigonol. At hynny, nid yw pob tîm lefel gwasanaeth yn deall sut mae eu gwaith yn cyfrannu at gynlluniau lefel uwch na sut y dylent weithio ar y cyd ar draws adrannau eraill a'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol.

Mae cynllun y Cyngor yn amlinellu ymrwymiad clir i wella addysg ac un o'i brif amcanion yw 'cynorthwyo pobl i fod â dyheadau cadarnhaol, dysgu a gwireddu eu potensial'. Caiff y cynllun ei adolygu'n flynyddol a, diwedd 2018, roedd aelodau etholedig o'r farn bod y cynllun wedi mynd yn rhy fras o ran yr adnoddau a oedd ar gael i'r awdurdod. O hwn, datblygodd yr awdurdod gyfres lai o flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn, ond gyda mwy o ffocws, gan gynnwys yr angen i 'wella addysg uwchradd'.

Mae'r dull hunanwerthuso a'r fframwaith cynllunio fel ei gilydd yn cynnig adnoddau defnyddiol i helpu'r awdurdod i nodi i ble y mae eisiau mynd a pha mor dda y mae'n symud ymlaen. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau hyn gan nad yw'r camau gweithredu a'r amcanion mewn cynlluniau a'r mesurau perfformiad mewn hunanwerthuso yn ddigon penodol bob amser, ac nid yw meini prawf llwyddiant yn ddigon heriol yn aml. Yn ogystal, nid yw trefniadau i sicrhau gwelliant wedi'u datblygu'n ddigonol ar draws meysydd gwasanaeth pwysig, gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi lles, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion.

Mae cyfraniadau gan bartneriaid, gan gynnwys ysgolion, yn llywio cylch hunanwerthuso'r awdurdod lleol yn dda. Mae'r awdurdod yn cyfathrebu'n dda â'i randdeiliaid allweddol, gan gynnwys penaethiaid, aelodau etholedig a phobl ifanc, ac mae'n ystyried eu barn yn dda. Mae strategaeth cyfranogiad yr awdurdod yn galluogi plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar faterion a phenderfyniadau pwysig yn effeithiol, er enghraifft trwy waith Senedd yr Ifanc.

Mae trefniadau llywodraethu yn gadarn, ar y cyfan. Mae pwyllgor craffu dysgu gydol oes yn cyfarfod yn rheolaidd, gyda phresenoldeb da gan aelodau etholedig. Mae ganddo flaenraglen waith briodol ar waith, sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd. Mae'r pwyllgor yn ystyried amrywiaeth eang o wybodaeth, gan gynnwys materion lleol a chenedlaethol pwysig. Mae ansawdd y wybodaeth a gyflwynir i'r pwyllgor craffu yn gynhwysfawr, a chaiff ei chefnogi gan drefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro ansawdd adroddiadau. Mae aelodau'r pwyllgor craffu wedi dwysau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch arfer a pherfformiad ysgolion yn effeithiol trwy eu gwaith gyda swyddogion GwE. Mae hyn wedi'u galluogi i herio ysgolion yn briodol, er enghraifft trwy'r gweithgor monitro perfformiad ysgolion.

Mae cynllun strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod yn addas at ei ddiben, ar y cyfan. Mae'r awdurdod lleol yn adolygu agweddau ar y cynllun yn briodol i gyfrif am y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r fframwaith corfforaethol ar gyfer rheoli perfformiad staff yn effeithiol ar draws yr adran addysg. Mae proses arfarnu gadarn yn amlygu cyfleoedd dysgu proffesiynol i'r holl staff. Mae'r rhain yn cyd-fynd yn agos ag amcanion yn y cynlluniau busnes perthnasol ac mae polisïau clir ar gyfer mynd i'r afael â thanberfformio. Mae swyddogion yn dangos ymrwymiad cadarn i'w dysgu

proffesiynol eu hunain ac maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n ategu'u rôl a'u datblygiad gyrfaol ehangach, fel y cyfle i ddilyn amrywiaeth o gyrsiau arwain addas ar gyfer arweinwyr presennol ac arweinwyr y dyfodol.

Mae gan yr awdurdod lleol ystod briodol o ganllawiau, gyda pholisïau a gweithdrefnau clir i gynorthwyo ysgolion a darparwyr addysg eraill i gyflawni'u cyfrifoldebau diogelu.  Mae penaethiaid ac arweinwyr diogelu dynodedig mewn ysgolion a rheolwyr gwasanaethau addysg eraill yn cael eu cefnogi'n dda trwy hyfforddiant priodol, a thrwy gyngor ac arweiniad fel bo'r angen, fesul achos unigol.

Mae gan yr awdurdod lleol ganllawiau a gweithdrefnau clir ar gyfer cynorthwyo darparwyr fel ysgolion a'r ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid i reoli'u dyletswyddau o ran recriwtio diogelach.  Mae'r awdurdod lleol yn monitro hyn yn dda ar gyfer staff cyflogedig, ac mae wedi rhoi gweithdrefnau archwilio priodol ar waith yn ddiweddar i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud ar gyfer pob gwirfoddolwr hefyd.

Mae dyraniad adnoddau'r awdurdod lleol i'w wasanaethau addysg ac ysgolion yn adlewyrchu'r flaenoriaeth uchel y mae'r cynllun corfforaethol yn ei rhoi i addysg.  Mae'r awdurdod wedi dangos ei ymrwymiad trwy wneud penderfyniadau i ddiogelu cyllidebau addysg, lle y bo'n bosibl, mewn cyfnod o ostwng cyllidebau ar draws gwasanaethau eraill.

Mae'r ysgolion a'r awdurdod yn cydweithio'n dda i ddeall y pwysau ariannol a wynebant yn y tymor byr a'r tymor canolig.  Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'n fawr y cymorth sydd ar gael iddynt i'w helpu i reoli'u cyllidebau.  Mae gan yr awdurdod ddull strwythuredig o osod cyllidebau ysgol, gan gynnwys proses her ac ymyrraeth gynhwysfawr, fesul cam ar gyfer yr ysgolion hynny â diffyg yn eu cyllideb.  Mae gan yr awdurdod ac ysgolion ddealltwriaeth ar y cyd o'r rhesymau dros y diffygion hyn ac yn cydweithio i fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys ystyried gwella ystâd yr ysgol.

Mae gan yr awdurdod fformiwla cyllido addas a thryloyw, sy'n cyfrif am y ffactorau perthnasol i ysgolion.  Fe wnaeth yr awdurdod adolygu a diweddaru'r fformiwla cyllido yn 2017 ac mae'n ei adolygu'n barhaus.

Mae gan yr awdurdod drefniadau effeithiol ar gyfer adrodd am gynnydd yn erbyn ei wariant cyllidebol ac mae'n defnyddio'i system rhagweld, monitro ac adrodd i sicrhau rheolaeth gyllidebol gyson ar draws y gwasanaeth addysg ac ysgolion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, ar sail hunanwerthusiad yr awdurdod, ei gynlluniau strategol a data perthnasol y mae Estyn yn ei gadw
- yn dadansoddi'r deilliannau o holiaduron agored, gan gynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgol, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag amrywiaeth o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a thrydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod ag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, gan gynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynir i'r cyngor neu'r swyddogaeth graffu, gwybodaeth am ddiogelu dysgwyr ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol y mae Estyn yn ei chadw

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- rhoi copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol er mwyn iddo nodi unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau lle bo'r angen

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/12/2019